PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 22 Medi 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy (In place of P.M. Edwards), I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorwyr P.M. Hughes and L.M. Stephens

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
K Phillips, Swyddog Rheoli Datblygu
S. Dawson, Prisiwr
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
J. Corner, Swyddog Technegol
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
G. Jones, Peiriannydd Cymorth Digidol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 yb - 1.30 yp

[**Noder**:

- Gohiriodd y Pwyllgor am egwyl am 12:00 y.p ac ailymgynullodd am 12.10 y.p.
- Am 1pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio atal y rheolau sefydlog, yn unol â RHGC 23.1, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
G.B. Thomas	4.1 - Cais DNS / 00422 - DNS (Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd) - Parc Paneli	Teulu sy'n byw yn y gymdogaeth sy'n gallu gweld safle'r cais o'u

	Haul Arfaethedig (DNS 3213164) ar dir yn Penderi, Fferm Blaenhiraeth, Llangennech, Llanelli, SA14 8PX	heiddo
D. Jones	4.1 - Cais DNS / 00422 - DNS (Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd) - Parc Paneli Haul Arfaethedig (DNS 3213164) ar dir yn Penderi, Fferm Blaenhiraeth, Llangennech, Llanelli, SA14 8PX	Cadeiriodd D. Jones cyfarfod Cyngor Cymuned Llan-non pan drafodwyd hyn ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth.

3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

E/39554	**Datblygiad Un Blaned arfaethedig, sef Preswylfa i Deulu ar dir i'r de-ddwyrain o Gaegroes, Penybanc, Llandeilo, SA19 7TB** Derbyniwyd sylwadau yn gwrthwynebu'r cais a oedd yn ailadrodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio, gyda'r prif feysydd a oedd yn peri pryder yn cynnwys: • Nid oedd y Cynllun Rheoli yn gyflawn ac roedd diffyg hygrededd iddo gan nad oedd yn dangos hyfywedd economaidd i gynnal teulu o chwech, roedd dadansoddiad ôl troed yr amgylchedd 10 gwaith yn is nag asesiad Llywodraeth Cymru ac roedd y trefniadau gwaredu carthffosiaeth wedi'u hepgor. • Roedd TAN 6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Ddatblygiadau Un Blaned fod yn fach eu heffaith a gwella amrywiaeth. Byddai'r cynnig presennol yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth trwy golli 100m o berth er mwyn creu mynediad newydd • Effaith weledol andwyol yn enwedig yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf yn sgil colli dail coed • Nid yw'r cyflenwad dŵr trwy ddŵr glaw sydd wedi'i adfer yn ddigonol i'r fenter • Byddai symudiadau traffig i'r safle ac oddi yno ar hyd ffordd fynediad gul yn cynyddu • Roedd TAN 6 yn mynnu na ddylai datblygiadau o'r fath effeithio ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nid oedd yr ymgeisydd wedi ymgynghori â chymdogion ac roedd gwrthwynebiadau wedi dod i law gan y gymuned a Chyngor Cymuned Manordeilo a Salem ynghylch y datblygiad • Mynegodd rheolwr prisio'r Cyngor ei farn ynghylch amrywiol

	feysydd y cynnig • Byddai'r cynnig yn arwain at ddatblygiad mewn cefn gwlad agored Ymatebodd yr ymgeisydd, y Swyddog Rheoli Datblygu a'r Swyddog Prisio i'r materion a godwyd.

(NODER: ar ddiwedd yr eitem hon cymerodd y Pwyllgor 10 munud o egwyl rhwng 12.00 - 12.10 p.m.)

4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.

Cais cynllunio DNS/00422 - DNS (Datblygu Cenedlaethol ei arwyddocâd) - Parc Solar Arfaethedig (DNS/3213164) ar dir yn Penderi, Fferm Blaenhiraeth, Llangennech, Llanelli, SA14 8PX

(Noder:

1. **Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd G.B. Thomas wedi gadael y cyfarfod yn ystod yr egwyl ac na fyddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth, a hynny wedi iddo ddatgan diddordeb yn y cais hwn yn gynharach**
2. **Am 1pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio atal y rheolau sefydlog, yn unol â RHGC 23.1, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]**

Hysbyswyd y Pwyllgor, yn dilyn cyflwyno dau Ddatblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd (DNS) i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy megis ynni'r haul yn Sir Gaerfyrddin yn Llangennech a ger Tŷ-croes, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel ymgynghorydd, greu Adroddiad Effaith Leol (LIR) yn tynnu sylw at effeithiau lleol posibl y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu hasesu wrth iddi ystyried y ceisiadau. Er y byddai'r Adroddiad Effaith Leol yn cael ei gwblhau gan y Pennaeth Cynllunio, yr oedd angen awdurdod dirprwyedig ar ei gyfer, hysbyswyd y Pwyllgor y gallai wneud ei sylwadau ei hun i Lywodraeth Cymru. Gellid nodi'r rheini yng nghofnodion y cyfarfod a'u cadarnhau yn y cyfarfod ar 8 Hydref 2020 cyn eu cyflwyno i'r Llywodraeth ar 9 Hydref.

Nodwyd bod y cais presennol yn ymwneud â safle Llangennech yn unig ac y byddai adroddiad ar gais Tŷ-croes yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Ar hynny, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a chyflwyniad sleidiau, gan gynnwys lluniau drôn o'r tri lleoliad y manylir arnynt yn y cais, cyfeirnod DNS/00422 lle cafwyd y sylwadau canlynol.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at fater o ran budd posibl i'r gymuned a allai gronni i'r tri chyngor cymunedol lleol o'r datblygiad ac at y cytundeb heb ragfarn oedd ar waith i drafod y buddion hynny. Er nad oedd derbyn mater o ran budd i'r gymuned yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y gallai roi sylw iddi, cafwyd sylwadau y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau'r budd mwyaf i'r cymunedau hynny.
- Cyfeiriwyd at y deunyddiau a'r arferion adeiladu y byddai'n cael eu defnyddio wrth adeiladu'r parc paneli haul ac at ba fesurau fyddai'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei ddadtgomisiynu'n ddiogel ar ôl 35

mlynedd. Er enghraifft, a fyddai hynny'n cynnwys gofyniad am daliad bond i sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni'r gwaith pe bai'r datblygwr yn peidio â gweithredu yn ystod oes y datblygiad.

Dywedodd y Swyddog Rheoli Datblygu y byddai'r ddarpariaeth ar gyfer cynllun dad-gomisiynu, ynghyd ag unrhyw ofyniad bond, yn cael ei ystyried gan yr arolygydd cynllunio ac y gellid gosod amodau ar ei gyfer fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio.

- Cyfeiriwyd at y deunyddiau a ddefnyddiwyd i weithgynhyrchu'r paneli haul, a oedd yn cynnwys defnyddio asidau, a mynegwyd barn y dylai cynlluniau ar gyfer eu datgomisiynu roi sylw i'r deunyddiau hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu symud a'u trin yn ddiogel i atal unrhyw ollyngiadau a halogiad pridd wedi hynny. Roedd hyn yn bwysig iawn mewn perthynas â darpariaethau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i amddiffyn y tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r arolygydd cynllunio yn ystyried creu cynllun datgomisiynu diwedd oes a, pe bai angen, y byddai'n cynnwys amodau priodol a allai gynnwys symud/trin y paneli yn ddiogel er mwyn osgoi unrhyw halogiad posibl o ran pridd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar sŵn cefndir o'r datblygiad, dywedwyd wrth y pwyllgor fod asesiad sŵn wedi'i gyflwyno gyda'r cais a oedd yn nodi dwy ffynhonnell sŵn posibl. Roedd y cyntaf yn ymwneud â 'sŵn suo' a oedd yn dod o'r trawsnewidwyr trydanol. Roedd yr ail yn ymwneud â dŵr glaw yn cwympo ar y paneli. Byddai'r arolygydd cynllunio yn ystyried y ddau achos.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar unrhyw faes electromagnetig posibl yn sgil y datblygiad yn effeithio ar eiddo cyfagos, dywedwyd nad oedd yn broblem gyda datblygiadau tebyg o'r blaen.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

4.1 Nodi'r adroddiad gwybodaeth ar gais DNS/00422

4.2 Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cynllunio gyflwyno Adroddiad Effaith Leol i Lywodraeth Cymru

4.3 Bod y Pwyllgor yn cyflwyno'r sylwadau canlynol i Lywodraeth Cymru

1. **Dylai unrhyw gymeradwyaeth i gais cynllunio DNS / 00422 gynnwys amod ar gyfer darparu cynllun datgomisiynu manwl a fydd yn ymgorffori: -**
   - **Y gofyniad i dalu bond i sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni'r gwaith datgomisiynu ar ôl 35 mlynedd pe bai'r datblygwr yn rhoi'r gorau i fasnachu**
   - **Tynnu/trin/gwaredu'r paneli haul yn ddiogel i atal unrhyw ollyngiadau a halogiad pridd wedi hynny i amddiffyn y tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**
2. **Dylid ystyried y mater o ran talu budd i'r gymuned i'r tair ardal cyngor cymunedol lleol y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt."**

CADEIRYDD **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]